

Dyddiad cyhoeddi: 12 Tachwedd 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch Cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Gofynnoch am y wybodaeth ganlynol:

1. Pa gynlluniau sydd gennych chi – os o gwbl – ar gyfer cynyddu nifer y trenau ar linell Coryton o ddau drên yr awr i bedwar yr awr?
2. A oes cynlluniau wedi'u gwneud yn y gorffennol i hybu nifer y gwasanaethau bob awr?
3. Os oes cynlluniau i gynyddu nifer y trenau ar Linell Coryton, beth yw'r amserlen ar gyfer gwella gwasanaethau?
4. Beth yw gweledigaeth/ nod hirdymor Trafnidiaeth Cymru ar gyfer Llinell Coryton?
5. A fydd trenau newydd yn cael eu defnyddio ar y llinell hon a phryd y bwriedir eu cyflwyno?
6. Beth yw'r gost amcangyfrifedig o unrhyw gynnydd mewn gwasanaethau trên ar Linell Coryton o ddau i bedwar yr awr?
7. Pa gynlluniau sydd yna ar gyfer cysylltu Llinell Coryton gyda Llinell Cwm Taf yn Radur/Ffynnon Taf?
8. Os oes cynlluniau, beth yw'r amserlen ar gyfer gwella gwasanaethau ar hyd y llinellau hyn?
9. Beth yw cost amcangyfrifedig unrhyw gynllun?

Ar ôl adolygu'ch cwestiynau, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Mewn ymateb i gwestiwn 1:

Mae ein tîm Cynllunio Trenau yn adolygu'n barhaus nifer y gwasanaethau ar bob llinell, gan weithio gyda rhanddeiliaid i hysbysu'r broses gynllunio. Ar hyn o bryd, nid ydym mewn sefyllfa i gynyddu nifer y trenau ar Linell Coryton o ddau drên i bedwar yr awr wrth i ni ganolbwyntio ar y sefyllfa sy'n codi yn sgil y Pandemig Coronafeirws. Fodd bynnag, mae Llinell Coryton wedi'i chynnwys yn ein gwaith parhaus yn adeiladau Metro De Cymru ac yn y pen draw bydd cwsmeriaid sy'n defnyddio'r llinell yn elwa ar y buddsoddiad sylweddol sy'n cael ei wneud i uwchraddio'r gwasanaethau ar Linellau Craidd y Cymoedd. Bydd y gwaith yn cymryd oddeutu pum mlynedd i'w gwblhau ac mae'r manylion llawn ar ein gwefan yn: <https://trc.cymru/south-wales-metro>.

Mewn ymateb i gwestiynau 2 a 3:

Mae cynlluniau i gynyddu nifer y gwasanaethau bob awr wedi'u cynnwys yn yr Achos Busnes ar gyfer Metro De Cymru. Fel y nodir yn ein hateb i gwestiwn 1, mae'r manylion llawn ar gael ar ein gwefan

yn: trc.cymru/prosiectau/metro/metro-de-cymru. Mae manylion llawn y gwasanaeth yn eich ardal gyffredinol (De-ddwyrain Cymru) hefyd ar gael ar ein gwefan: trc.cymru/prosiectau/metro/metro-de-cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn 4:

Nid oes gan Transport for Wales weledigaeth na nod tymor hir ar gyfer unrhyw un llinell ar wahân i weddill y rhwydwaith. Yn lle, mae gan Transport for Wales weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer rhwydwaith rheilffyrdd o ansawdd uchel, diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch ledled Cymru a fydd yn gweld gwasanaethau newydd a cherbydau, ynghyd â rhaglen enfawr o fuddsoddi mewn gorsafoedd. Mae gwelliannau i'r gwasanaeth ar Linell Coryton yn dod o dan y cynlluniau i adeiladu Metro De Cymru ac fel y nodwyd yn ein hateb i gwestiwn 1, mae manylion llawn y prosiect i'w gweld ar ein gwefan yn: <https://trc.cymru/south-wales-metro>

Mewn ymateb i 5:

Rydym yn gwneud buddsoddiad sylweddol i uwchraddio ein cerbydau fel rhan o'n cynlluniau i adeiladu Metro De Cymru. Mae manylion y trenau y byddwn yn eu cyflwyno ar gael ar ein gwefan yn <https://trc.cymru/prosiectau/metro/trenau>

Mewn ymateb i gwestiynau 6 a 9:

Ni allwn roi cost fesul eitem ar gyfer gwasanaeth unigol, fel y gwasanaeth ar Linell Coryton. Mae hyn oherwydd y bydd y rhan fwyaf o'r gost o weithredu'r rheilffordd yn gost sefydlog (staff, costau prydles ac ati), gan ei gwneud hi'n anodd neilltuo a darparu cost wirioneddol gwasanaeth unigol. Mae manylion y cyfanswm sy'n cael ei fuddsoddi i adeiladu Metro De Cymru a gwella/ cynyddu gwasanaethau ar linellau craidd y cymoedd ar gael ar ein gwefan: <https://trc.cymru/prosiectau/metro/metro-de-cymru>.

Mewn ymateb i gwestiynau 7 a 8:

Ar hyn o bryd nid oes cynlluniau i gysylltu Llinell Coryton gyda Llinell Cwm Taf yn Radur/Ffynnon Taf ac felly, nid oes amserlenni ar gael.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o fudd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru